

# Peidiwch â grwgnach – canwch!

*“Henffych well, syr! Myfi yw’r wraig oedd yn sefyll yma yn d’ymyl yn gweddi ar yr Arglwydd.” (adn. 26)*

## Beth am ddarllen 1 Samuel 1:21–2:11 ac yna myfyrio

Fedraf i ddim meddwl bod yna wefr mwy i’w chael na gwybod ein bod yn cael ein dal ynghanol stori fawr Duw. Cymerwech Hanna y buom yn darllen amdani heddiw. Rydych chi’n gyfarwydd â’r stori rwy’n siŵr, ond caniatewch imi roi braslun o rai o’r manylion.

Roedd Hanna yn un o ddwy wraig Elcana, ac enw’r llall oedd Peninna. Roedd gan Peninna blant “ond nid gan Hanna” (1:2). Byddai Peninna’n gwawdio a gwneud hwyl am ben Hanna yn rheolaidd am ei bod yn anffrwythlon. Ond er iddi ei brifo’n arw gyda’i geiriau, mae’n ymddangos bod Hanna wedi dygymod â’r sefyllfa gyda hunan-barch ac wedi ymatal llawer arni ei hun. Yn y diwedd, mae Duw’n clywed gweddi Hanna, ac mae hi’n beichiogi gan roi genedigaeth i fab bach mae hi’n ei enwi’n Samuel. Ymhen ychydig ar ôl ei eni mae Hanna yn cyflwyno Samuel i’r Arglwydd ar gyfer oes o wasanaeth yn y Deml. Wrth iddi gyflwyno Samuel i’r Arglwydd, mae hi’n canu cân sydd ymysg yr harddaf yn yr Ysgrythur. Ond sylwch *pryd* ddaru hi ganu ei cân – nid pan feichiogodd ar Samuel na phryd y ganwyd ef, ond pan gyflwynodd hi ef i wasanaeth yr Arglwydd.

Dywed Dr Larry Crab: “Cenir y caneuon dyfnaf a mwyaf cyfoethog, nid ar adegau o fendith, ond ar yr adegau hynny pan synhwyrwn ni ein bod yn cael ein dal i fyny yn symudiad Duw, a’n bod wedi ein codi i mewn i stori fwy.” Canodd Mair, mam Iesu, ei cân hyfryd hithau pan ddeallodd hi ei bod hithau’n cael ei dal i fyny mewn symudiad dwyfol a ddeuai â iachawdwriaeth i’r byd (Luc 1:46–55). Wyt ti’n ymwybodol o rywbeth sy’n mynd ymlaen yn dy fywyd di sy’n fwy na dy agenda di dy hun – dy fod ti’n cael dy ddal ynghanol stori fwy? Yna cana dy gân! Hon fydd y gân fwyaf arwyddocaol a geni di byth.

## Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Ex. 15:1–13; Luc 1:68–79

## Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Pa hyder yn y dyfodol mae cân Moses yn ei dangos?
2. Pa sicrwydd ar gyfer y dyfodol welwn ni yng nghân Sachareias?

## Gweddi

Fy Nhad a’m Duw, pryd bynnag mae’n rhaid imi ildio rhywbeth, helpa fi i weld hynny yng nghyd-destun y stori fwy. Ac yn hytrach na grwgnach, helpa fi i ganu. Yn enw Iesu. Amen.